Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Trefniadau Diogelwch Tân yng Ngwasanaethau Tân ac Achub Cymru

# Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru


**Blwyddyn archwilio:** 2015-16

**Cyhoeddwyd:** Awst 2016

**Cyfeirnod y ddogfen:** 340A2016

# Statws yr adroddiad

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn amlinellu sut y disgwylir i awdurdodau cyhoeddus drin ceisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. O ran y ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau am ddatgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Y tîm a wnaeth y gwaith oedd Steve Barry a Ron Price.

# Cynnwys

Mae'r Awdurdod yn cynllunio ac yn cyflawni ystod o weithgareddau priodol sy'n gwella diogelwch tân ac mae ganddo drefniadau ar gyfer gwerthuso effaith ymgyrchoedd ond, fel eraill, nid oes ganddo fframwaith i werthuso effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y gweithgareddau hyn yn llawn


| | |
|---|---|
| Adroddiad crynodeb | |
| Crynodeb | 4 |
| Cynigion ar gyfer gwelliant | 6 |
| Adroddiad manwl | |
| Mae gan yr Awdurdod gynlluniau clir ar gyfer gweithgareddau diogelwch tân mewn eiddo domestig, ond mae'r cynlluniau ar gyfer eiddo busnes yn llai clir | 7 |
| Mae'r Awdurdod yn gwneud llawer o weithgareddau diogelwch tân ac atal tân i gefnogi diogelwch cymunedol | 14 |
| Nid oes dull cyson o werthuso effeithiolrwydd gwaith diogelwch tân yng Nghymru. Mae'r trefniadau adrodd lleol presennol yn disgrifio lefel y gweithgareddau a rhywfaint o effeithiolrwydd lleol, ond dim ond darlun rhannol o berfformiad a roddir | 17 |
| Atodiadau | |
| Data Awdurdod Tân ac Achub Cymru Gyfan | 21 |

# Adroddiad crynodeb

## Crynodeb

**1.** Mae hybu diogelwch tân[1] yn un o swyddogaethau statudol craidd Awdurdodau Tân ac Achub (ATAau) yng Nghymru. Mae gan yr ATAau swyddogaethau sydd wedi'u diffinio'n glir o ran gorfodi diogelwch tân, fel y nodir yn y Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005. Mae gan yr ATAau hanes da o ran cyflawni o fewn eu cyllidebau. Mae rhai agweddau ar weithgareddau diogelwch tân wedi dibynnu ar gyllid gan Grant Diogelwch Tân Cymunedol Llywodraeth Cymru ac mae'r grant hwn wedi lleihau yn y ddwy flynedd ddiwethaf.

**2.** Mae adran 21 Deddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 yn mynnu bod Gweinidogion Cymru yn paratoi Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub (y Fframwaith). Cyhoeddwyd fframwaith newydd yn 2016 ac mae'n tynnu sylw at dri maes heriol:

- cyflawni cydbwysedd effeithiol rhwng ymateb ac atal;
- cydnabod y caledi o ran cyllid y sector cyhoeddus; a
- risgiau ychwanegol posibl o ganlyniad i boblogaeth sy'n heneiddio.

**3.** Mae data Llywodraeth Cymru yn dangos:

- roedd presenoldeb mewn prif danau i lawr 29 y cant, ac roedd presenoldeb mewn tanau eilradd[2] i lawr 52 y cant rhwng 2010-11 a 2014-15;
- aeth nifer y tanau annomestig[3] i lawr 26 y cant rhwng 2010-11 a 2014-15;
- yn 2014-15, roedd nifer y tanau bwriadol wedi gostwng 15 y cant o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol ac wedi gostwng dau draean dros y 10 mlynedd flaenorol;
- yn 2014-15, roedd nifer y galwadau ffug maleisus (galwadau a wnaethpwyd pan nad oedd tân mewn gwirionedd) a dderbyniwyd gan wasanaethau tân ac achub wedi gostwng 18 y cant o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol ac wedi gostwng 69 y cant dros y 10 mlynedd flaenorol. Ystyrir bod y gostyngiad sylweddol hwn wedi deillio'n uniongyrchol o'r dull 'Her Galwadau' a fabwysiadwyd yn yr ystafell reoli; ac

[1] Yn yr adroddiad hwn, mae'r termau 'diogelwch tân cymunedol' (sy'n disgrifio eiddo domestig a mentrau cymunedol) a 'diogelwch tân i fusnesau' yn cael eu defnyddio i ddisgrifio meysydd ffocws penodol.

[2] Mae **prif danau** yn cynnwys pob tân mewn adeiladau a cherbydau sydd ddim yn adfail neu mewn adeileddau awyr agored, neu unrhyw dân lle mae pobl wedi'u hanafu neu lle mae angen achub pobl, neu danau lle mae pump neu fwy o beiriannau'n rhan o'r ymateb.Mae **tanau eilradd** yn gyffredinol yn golygu tanau awyr agored gan gynnwys tanau ar laswelltir neu mewn sbwriel oni bai bod pobl wedi'u hanafu neu fod angen achub pobl, neu fod pump neu fwy o beiriannau'n rhan o'r ymateb. Maent yn cynnwys tanau mewn adeiladau unigol sy'n adfail, hen gerbydau ffordd ac adeileddau awyr agored sy'n adfail.

[3] **Eiddo annomestig** yw eiddo sy'n destun y Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005.

- yn 2014-15, roedd nifer y galwadau ffug yr ymatebwyd iddynt a achoswyd gan gyfarpar canfod tân awtomatig mewn eiddo annomestig wedi cynyddu ychydig bach o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol ond wedi gostwng traean dros y 10 mlynedd flaenorol. Yng Ngogledd Cymru, cyflwynodd yr Awdurdod drefniadau ymateb diwygiedig ac mae wedi gweld gostyngiad sylweddol yn y lefelau presenoldeb o ran galwadau ffug – o 1,250 o achosion yn 2014-15 i 282 o achosion yn 2015-16.

**4.** O ran anafiadau a marwolaethau oherwydd tân, mae'r data ar gyfer Cymru gyfan yn 2014-15 yn dangos y canlynol:

- roedd 21 o farwolaethau oherwydd tân, tair yn fwy nag yn y flwyddyn flaenorol; y cyfartaledd yw tuag 20 o farwolaethau y flwyddyn oherwydd tân rhwng 2010-11 a 2014-15; ac
- ymatebodd y gwasanaethau tân ac achub i 543 o anafiadau nad oeddent yn angheuol oherwydd tân, sy'n is nag yn y flwyddyn flaenorol er bod y nifer wedi amrywio rhwng 541 a 626 dros y cyfnod 2010-11 i 2014-15.

**5.** Er ei bod yn hysbys bod ATAau yn gwneud ystod eang o weithgareddau atal wedi'u targedu, nid yw effeithiolrwydd y trefniadau wedi bod yn destun asesiad annibynnol. Ac ystyried y ffocws parhaus ar weithgareddau diogelwch tân, roeddem yn gofyn y cwestiwn cyffredinol 'A yw trefniadau diogelwch tân ATAau yn helpu i ddiwallu anghenion lleol?' ac yn ceisio ei ateb drwy ystyried a yw ATAau:

- Yn cynllunio'n effeithiol
- Yn cyflawni'n effeithiol
- Yn gwerthuso'r canlyniadau

**6.** Gwelsom fod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) yn cynllunio ac yn cyflawni ystod o weithgareddau priodol sy'n gwella diogelwch tân, ac mae ganddo drefniadau ar gyfer gwerthuso effaith ymgyrchoedd. Ond, fel eraill, nid oes ganddo fframwaith i werthuso effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y gweithgareddau hyn yn llawn, oherwydd:

- Mae gan yr Awdurdod gynlluniau clir ar gyfer gweithgareddau diogelwch tân mewn eiddo domestig, ond mae'r cynlluniau ar gyfer eiddo busnes yn llai clir
- Mae'r Awdurdod yn gwneud llawer o weithgareddau diogelwch tân ac atal tân i gefnogi diogelwch tân cymunedol.
- Nid oes dull cyson o werthuso effeithiolrwydd gwaith diogelwch tân yng Nghymru. Mae'r trefniadau adrodd lleol presennol yn disgrifio lefel y gweithgareddau a rhywfaint o effeithiolrwydd lleol, ond dim ond darlun rhannol o berfformiad a roddir.

# Cynigion ar gyfer gwelliant

| | |
|---|---|
| C1 | Ar lefel genedlaethol, datblygu egwyddorion, a chytuno arnynt, ar gyfer sut i werthuso llwyddiant a chanlyniadau ymyriadau, digwyddiadau a gwaith atal presennol gan ystyried y canlynol:<br>• Perthnasedd – i ba raddau y mae'r ymyriadau'n cynhyrchu canlyniadau ystyrlon.<br>• Capasiti a galluedd – defnyddio adnoddau'n effeithiol.<br>• Effeithlonrwydd – ffordd o fesur sut y mae adnoddau a mewnbynnau'n cael eu troi'n ganlyniadau a deilliannau.<br>• Effeithiolrwydd – i ba raddau y cyflawnwyd ymyriadau, neu y disgwylir eu cyflawni, gan ystyried eu pwysigrwydd cymharol.<br>• Cynaliadwyedd – parhau i weld budd ar ôl cwblhau'r mewnbynnau cychwynnol. Tebygolrwydd budd hirdymor.<br>• Gwerth am arian – sut i gydbwyso cost un mewnbwn â mentrau eraill.<br>• Materion yn ymwneud â chydraddoldeb. |
| C2 | Ar lefel genedlaethol, sefydlu trefniadau ag Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans GIG Cymru a'r byrddau iechyd perthnasol i ganfod faint o anafiadau nas adroddir sy'n digwydd o ganlyniad i danau er mwyn gwybod pwy allai fod yn agored i niwed neu pa eiddo a allai wynebu mwy o risg. |

# Adroddiad manwl

## Mae’r Awdurdod yn cynllunio ac yn cyflawni ystod o weithgareddau priodol sy’n gwella diogelwch tân ac mae ganddo drefniadau ar gyfer gwerthuso effaith ymgyrchoedd, ond, fel eraill, nid oes ganddo fframwaith i werthuso effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y gweithgareddau hyn yn llawn

### Mae gan yr Awdurdod gynlluniau clir ar gyfer gweithgareddau diogelwch tân mewn eiddo domestig, ond mae’r cynlluniau ar gyfer eiddo busnes yn llai clir

#### Mae’r Awdurdod yn gwneud gweithgareddau diogelwch tân cymunedol sy’n seiliedig ar gynlluniau clir sy’n adlewyrchu anghenion lleol a disgwyliadau cenedlaethol

**7.** Mae hybu diogelwch tân yn un o swyddogaethau statudol craidd ATAau. Mae adran 6 Deddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 yn mynnu bod gan awdurdod tân ac achub ddarpariaeth at ddiben hybu diogelwch tân yn ei ardal (gan gynnwys darparu cyngor, gwybodaeth, cyhoeddusrwydd ac anogaeth i atal tân a marwolaeth neu anafiadau mewn tân ac i leihau colledion).

**8.** Ar hyn o bryd, mae’r Awdurdod yn amlinellu ei ddulliau diogelwch tân mewn nifer o ddogfennau a chynlluniau strategol. Mae’r rhain yn cynnwys:

- Cynllun gwella a lleihau risg ar y cyd 2015-16
- Adroddiadau monitro
- Crynodebau perfformiad
- Hunanasesiadau perfformiad
- Datganiadau polisi gorfodi diogelwch tân i fusnesau
- Amrywiaeth o ddogfennau cyngor diogelwch a gwybodaeth i’r cyhoedd sydd ar gael ar y wefan

9. Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) wedi canolbwyntio ar leihau niferoedd marwolaethau ac anafiadau o ganlyniad i dân yn ei holl waith diogelwch tân dros y blynyddoedd diwethaf. Mae'r gweithgareddau wedi'u sbarduno gan strategaeth 10-mlynedd a sefydlwyd yn 2008 pan oedd ystadegau'n dangos niferoedd uchel o farwolaethau ac anafiadau yn sgil tanau damweiniol mewn anheddau yng Ngogledd Cymru. Sefydlwyd Tasglu Prif Swyddogion Tân ar y pryd i archwilio a dadansoddi ffactorau a oedd yn cyfrannu at y niferoedd uchel o farwolaethau ac anafiadau. Ar y pryd, roedd tua 4,000 i 5,000 o Wiriadau Diogelwch Tân yn y Cartref (GDTCau) yn cael eu cwblhau'n flynyddol. Rhan allweddol o'r strategaeth y cytunwyd arni ar y pryd oedd cynyddu nifer ac amlder y GDTCau a gynhaliwyd; mae hyn wedi'i wneud dros gyfnod y strategaeth ac mae tystiolaeth nawr ar gael o lwyddiant y dulliau hyn. Yn ogystal â chynyddu nifer y Gwiriadau Diogelwch yn y Cartref a gyflawnir, roedd y strategaeth yn cynnwys yr angen i fynd ati'n well i dargedu'r rheini a oedd yn fwyaf mewn risg o danau mewn lleoliad domestig. Roedd y strategaeth yn sefydlu targed o 30,000 GDTC y flwyddyn i gynyddu presenoldeb larymau mwg sy'n gweithio ac elfennau atal eraill ar aelwydydd ledled Gogledd Cymru.

10. Mae'r Awdurdod wedi parhau i bwysleisio GDTCau; maent wedi cwblhau nifer sylweddol uwch o'r rhain i bob 10,000 o'r boblogaeth na'r ddau ATA arall yng Nghymru.

11. Mae gan yr Awdurdod hierarchaeth glir o gynlluniau a chamau gweithredu sydd wedi'u cynllunio i unioni'r mater diogelwch tân. Mae'r Cydgynllun Gwella a Lleihau Risg yn amlinellu amcanion allweddol yr ATA a sut y'u cyflawnir, ac yn cysylltu'r amcanion hyn â dadansoddiad o gyllid y presennol a'r dyfodol.

12. Ceir dealltwriaeth dda o risg drwy'r Awdurdod i gyd. Mae'r staff yn gallu mynegi i ble dylid cyfeirio ymdrechion i liniaru'r risg o farwolaeth neu anaf oherwydd tân. Mae eu camau gweithredu diweddar wedi dangos mwy o ffocws ar ffactorau critigol fel pobl sy'n byw ar eu pennau eu hunain, dibyniaeth ar alcohol neu ddefnyddio cyffuriau, oed neu anabledd.

13. Mae dealltwriaeth glir o faterion a risgiau diogelwch cymunedol ehangach yn amlwg yn yr Awdurdod a'i gynlluniau. Mae'r Awdurdod wedi gwella o ran ystyried ffactorau'n ymwneud â diogelu, trais domestig, bregusrwydd, amrywiaeth ac anghenion cymunedau. Mae'r Awdurdod wedi canolbwyntio ar gwblhau GDTCau fel rhan fawr o'i weithgareddau atal tân.

14. Mae'r Awdurdod ar hyn o bryd yn ystyried nifer o fentrau newydd a chynlluniau peilot i amrywio ei weithgareddau a'i ymagwedd gydweithredol at ddiogelwch cyhoeddus. Mae'n archwilio'r posibilrwydd o ehangu gweithgareddau GDTC i ystyried elfennau eraill ar ddiogelwch yn y cartref. Bydd hyn o gymorth, gan gadw'r ymateb tân gweithredol hollbwysig, i symud gweithgareddau tuag at wasanaeth sy'n canolbwyntio mwy ar atal. Mae hyn yn cyd-fynd â disgwyliadau Fframwaith Cenedlaethol Llywodraeth Cymru.

Yn wahanol i'w drefniadau ar gyfer gweithgareddau diogelwch tân cymunedol, nid yw cynlluniau a blaenoriaethau ar gyfer diogelwch tân i fusnesau wedi'u cofnodi cystal

**15.** Mae'r Awdurdod yn awdurdod gorfodi o ran darpariaethau Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 (y Gorchymyn). Mae'r Gorchymyn yn berthnasol i eiddo annomestig ac yn rhoi dyletswyddau i'r unigolyn â chyfrifoldeb (fel arfer y cyflogwr neu rywun arall sy'n gyfrifol am yr eiddo) i sicrhau rhagofalon tân cyffredinol. Mae gan yr Awdurdod bwerau archwilio a gorfodi sy'n ei alluogi i fabwysiadu opsiynau sy'n ei alluogi i bennu addasiadau gofynnol, cyflwyno hysbysiadau gorfodi i fynnu addasiadau neu gyflwyno hysbysiadau gwahardd i wahardd defnyddio eiddo neu gyfyngu ar y defnydd hwnnw.

**16.** Mae Fframwaith Cenedlaethol Llywodraeth Cymru yn amlinellu disgwyliadau o ran diogelwch tân i fusnesau. Mae'n cydnabod bod gan yr ATAau swyddogaethau sydd wedi'u diffinio'n glir o ran gorfodi diogelwch tân, fel y nodir yn y Gorchymyn 2005. Mae'n ystyried y dylai ATAau barhau i ganolbwyntio eu hymdrechion ar eiddo annomestig lle ceir risg uwch, darparu cyngor a chymorth diogelwch tân i fusnesau a, lle bo angen, defnyddio eu pwerau rheoleiddio i barhau i leihau'r risg o danau. Mae hyn oherwydd bod Llywodraeth Cymru yn credu bod tanau mewn eiddo annomestig yn gallu distrywio cymunedau lleol a'i bod yn amlwg y bydd ymdrech barhaus i leihau nifer y tanau mewn eiddo busnes yn cael effaith gadarnhaol, gan ddiogelu cyflogaeth leol, a chryfhau masnach leol.

**17.** Mae gweithgareddau Diogelwch Tân i Fusnesau yn ystyried disgwyliadau'r Fframwaith Cenedlaethol. Mae dull gweithredu sy'n seiliedig ar risg yn cael ei ddilyn i nodi eiddo sy'n cael blaenoriaeth ar gyfer archwilio. Mae hyn wedi arwain at dargedu llety cysgu a chanfod gwelliannau sydd angen eu gwneud. Er bod dull gweithredu sy'n seiliedig ar risg yn cael ei ddefnyddio yng nghyswllt gweithgareddau tân i fusnesau ar lefel weithredol, hyn a hyn o ddogfennau strategaeth gorfforaethol sy'n nodi'r dull hwn. Pe bai cynllun strategol cliriach ar gael, fel pwynt cyfeirio i werthuso gweithgareddau a chefnogi gwaith cynllunio adnoddau yn y tymor hwy, byddai mwy o eglurder o ran sut mae'r Awdurdod yn bwriadu gweithio gyda busnesau, mwy o wybodaeth am y cyswllt rhwng swyddogaethau a chyfrifoldebau landlordiaid, a sut mae eiddo risg uchel yn cael eu targedu (er enghraifft llety cysgu dros dro).

**18.** Mae rhai agweddau ar ddeddfwriaeth diogelwch tân sy'n cymhlethu gweithgareddau cynllunio. Mae hyn yn arbennig o wir, er enghraifft, o ran y ffin rhwng y diffiniadau o ddiogelwch tân i fusnesau yn y Gorchymyn ac yn neddfwriaeth y Ddeddf Tai. Gellid peri risgiau posibl drwy ddefnyddio eiddo busnes fel tai dros dro; ar gyfer tai amlfeddiannaeth a newid defnydd o eiddo busnes heb hysbysu am hynny. Mae hwn yn faes lle byddai mwy o ddadansoddi a gwerthuso ar y cyd â Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol o fudd.

## Ceir amrywiaeth o ran yr adnoddau sydd ar gael ar gyfer gweithgareddau diogelwch tân mewn ATAau unigol, ac mae cyllid grant gan y llywodraeth yn lleihau

### Arddangosyn 1: Gwariant ar ddiogelwch tân a GDTCau yn ôl poblogaeth

Mae swm y gwariant a nifer y gwiriadau diogelwch tân yn y cartref yn amrywio rhwng y tri ATA.

| 2014-15 | Canolbarth a Gorllewin Cymru | Gogledd Cymru | De Cymru |
|---|---:|---:|---:|
| Swm a wariwyd ar ddiogelwch tân y pen o'r boblogaeth (heb gynnwys grant Llywodraeth Cymru) | £6.73 | £8.81 | £5.72 |
| Nifer y GDTCau i bob 10,000 o'r boblogaeth | 245 | 396 | 168 |

Ffynonellau Cyfrifon Blynyddol yr ATA ac Ystadegau Cymru Llywodraeth Cymru[4]

**19.** Cyfrifoldeb yr ATA unigol fydd pennu ei gyllideb ar gyfer gweithgareddau diogelwch tân drwy ystyried anghenion lleol, ond mae'r gwahaniaeth amlwg rhwng ATAau o ran gwariant y pen o'r boblogaeth yn haeddu trafodaeth bellach. Rydym hefyd yn cydnabod nad yw nifer y GDTCau yn ddangosydd ar gyfer yr ystod lawn o weithgareddau diogelwch tân cymunedol mewn ardal. Mae'n bwysig symud tuag at ymyriadau wedi'u teilwra ar gyfer pobl sy'n wynebu risg, a gwneud yn siŵr bod y gwasanaeth yn darparu ar gyfer anghenion yr unigolyn. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, mae'r data sydd ar gael yn mesur y niferoedd ac mae'n codi cwestiynau eraill ynglŷn â natur y gwasanaeth a ddarperir, o ran y gwahaniaethau yn lefel y gweithgarwch.

**20.** Mae Arddangosyn 1 yn dangos mai'r Awdurdod oedd wedi gwario fwyaf y pen o'r boblogaeth ar ddiogelwch tân ac wedi cyflawni'r nifer fwyaf o GDTCau am bob 10,000 o'r boblogaeth yn 2014-15. Nid yw'r buddsoddiad hwn yn cynnwys arian grant Llywodraeth Cymru. Mae'r Awdurdod yn cynllunio gwariant ar gyfer diogelwch tân fel rhan o'i waith cynllunio tymor canolig, ac mae'n defnyddio grant Llywodraeth Cymru ar gyfer elfennau o'i waith diogelwch tân cymunedol. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r Awdurdod wedi defnyddio'r holl grant sydd ar gael, ond gan fod elfen o ansicrwydd i arian grant, nid yw'n cymryd yn ganiataol bod arian grant ar gael wrth baratoi ei gynlluniau ariannol. Mae hefyd yn cynllunio ar y sail y byddai'r gweithgareddau ychwanegol mae'n eu cefnogi yn dod i ben os byddai'r grant yn dod i ben.

[4] Mae amrywiaeth o ddata am weithgareddau diogelwch tân cymunedol ar gael yma: Gweithgareddau diogelwch tân.


**21.** Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cymorth ariannol i ATAau ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau atal, gan wella diogelwch tân a thargedu dinasyddion agored i niwed. O'i gymharu â 2011-12 roedd y grant refeniw ar gyfer 2014-15 wedi lleihau £10,000, ond yn 2012-13 a 2013-14 roedd y grant refeniw dros £100,000 yn llai na lefelau 2011-12. Roedd y grant cyfalaf wedi aros yn £460,000 rhwng 2011-12 a 2014-15.

**22.** Yn 2015-16, newidiodd y trefniadau dyrannu grantiau. Mae Llywodraeth Cymru'n rhoi syniad o gyfanswm y grantiau refeniw a chyfalaf sydd ar gael, ac mae ATAau unigol nawr yn rheoli elfennau ar y rhaglen grantiau ar ran pob ATA. ATA Gogledd Cymru, er enghraifft, sy'n rheoli'r grant ar gyfer rhaglenni ymyriadau ieuenctid ledled Cymru. Mae'r tri ATA yn gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu cynigion ar gyfer sut i ddosbarthu cyfanswm y grant sydd ar gael. Roedd pob un ohonynt o'r farn bod y newid wedi bod yn fuddiol fel ffordd o uchafu gwariant grant ledled Cymru.

**23.** Yn 2015-16, cyfanswm y grantiau refeniw a oedd ar gael i bob ATA oedd £1,030,000 (gostyngiad £997,976 o'i gymharu â 2014-15). Cyfanswm y grantiau cyfalaf a oedd ar gael yn 2015-16 oedd £670,000 (gostyngiad £649,500 o'i gymharu â 2014-15). Ers 2011-12 mae cyfanswm y grant refeniw sydd ar gael wedi lleihau 56 y cant ac mae'r grant cyfalaf sydd ar gael wedi lleihau 50 y cant. O ran grant cyfalaf, golygodd newidiadau yn 2015-16 fod grantiau ar gael ar gyfer stoc a ddefnyddir mewn gweithgareddau diogelwch tân yn y cartref (yn hytrach na stoc a brynwyd), ac felly roedd angen llai o grant ar rai ATAau gan eu bod yn defnyddio eu stoc eu hunain.

Arddangosyn 2: Gwariant grantiau refeniw diogelwch tân cymunedol Llywodraeth Cymru


Rhwng 2011-12 a 2014-15 gwariodd yr Awdurdod 96 y cant o'r grant refeniw a oedd ar gael.




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

### Arddangosyn 3: Gwariant grantiau cyfalaf diogelwch tân cymunedol Llywodraeth Cymru

Rhwng 2011-12 a 2014-15 gwariodd yr Awdurdod yr holl grant cyfalaf a oedd ar gael (mae'r gwariant ar gyfer 2015-16 yn seiliedig ar ragolygon).




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

**24.** Mae angen gwneud mwy i ddatblygu dulliau'r ATAau yng Nghymru o gydweithio i ganfod a defnyddio ffynonellau cyllid grant ychwanegol. Rydym wedi gwneud sylwadau cadarnhaol ynglŷn ag ymagwedd gyffredinol yr Awdurdod tuag at wytnwch ariannol a rheoli ariannol yn ein hadroddiad Gwytnwch Ariannol diweddar. Casgliad yr adroddiad hwn oedd bod y rheoli ariannol yn gryf. Fodd bynnag, ym meysydd cynhyrchu incwm a chodi tâl am elfennau o ddiogelwch tân i fusnesau, gallai'r Awdurdod wneud mwy. Hefyd, mae'r trefniadau i geisio, canfod a derbyn cyllid grant (heblaw am gynllun grant Llywodraeth Cymru) yn ad hoc ac yn oportiwnistaidd gan fwyaf, yn hytrach na bod wedi'u cydlynu'n strategol, fel rhan o gynlluniau ariannol a gweithredol yr Awdurdod.

## Mae'r Awdurdod yn gwneud llawer o weithgareddau diogelwch tân ac atal tân i gefnogi diogelwch tân cymunedol

### Mae'r Awdurdod yn llwyddo i ddefnyddio amrywiaeth o weithgareddau ymyrryd ac atal i gefnogi diogelwch tân cymunedol

**25.** Mae'r Awdurdod yn ymdrin â diogelwch tân drwy gyfrwng amrywiaeth o weithgareddau sydd wedi'u hanelu at atal. Mae rhai o'r rhain wedi'u cyfeirio at unigolion neu grwpiau o unigolion, drwy raglenni addysg wedi'u targedu; er enghraifft, mae rhai'n ymwneud â darparu cyfarpar megis larymau mwg a chyfarpar llethu tân, ac mae rhai'n ymwneud ag addysg gyffredinol a gwybodaeth am atal tân.

**26.** Mae'r amrywiaeth o weithgareddau atal a diogelwch tân y mae'r Awdurdod yn eu gwneud ar hyn o bryd ac a ystyriwyd gennym yn cynnwys:

- GDTCau – cynhaliwyd 27,352 yn ystod 2014-15.
- Hysbysebion ar y radio, gweithgareddau cyfryngau cymdeithasol a datganiadau i'r wasg am ddiogelwch tân.
- Gweithgareddau tîm lleihau cynnau tanau bwriadol.
- Ymgyrchoedd wedi'u targedu ar y cyd ag eraill, megis yr Wythnos Diogelwch Trydanol a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2015.
- Mae'r Prosiect Phoenix[5] yn rhaglen bum diwrnod o wneud gweithgareddau'r gwasanaeth tân ac achub megis rhedeg pibelli dŵr, defnyddio ysgolion a chwilio ac achub. Nod y rhaglen yw lleihau'r risg o droseddu drwy ymdrin â materion sy'n cynnwys diffyg hyder a hunan-barch.
- Cynlluniau diffoddwyr tân ifanc sy'n bwriadu integreiddio pobl ifanc â'r gwasanaeth a gwella cyfathrebu â chymunedau.

**27.** Mae gan yr Awdurdod system glir ar waith i gofnodi atgyfeiriadau gan asiantaethau partner a hysbysu staff am yr angen i gynnal gwiriadau diogelwch cartref. Mae hyn yn categoreiddio'r flaenoriaeth a roddir i'r atgyfeiriad ar lefelau risg uchel, canolig neu isel, a defnyddir y matrics risg i bennu blaenoriaeth a chyflymder yr ymateb. Mae rheolwyr yn monitro cyflawniadau ac amserlenni i sicrhau bod y rhain yn cael eu cwblhau.

**28.** Mae'r wybodaeth ar wefan yr Awdurdod am y GDTCau sydd ar gael yn glir ac yn addysgiadol. Mae'n pwysleisio bod y gwiriadau hyn yn ddi-dâl ac yn nodi pa mor hir y maent yn ei gymryd, beth y byddant yn ei gynnwys ac yn rhoi cyngor sylfaenol clir ynglŷn â sut i wella diogelwch tân yn y cartref. Mae fideo ar y brif wefan yn egluro cynnwys GDTCau ac mae amrywiaeth o ddogfennau amlieithog hefyd wedi'u cynhyrchu.

[5] Ymyriad dan nawdd Llywodraeth Cymru yw'r Prosiect Phoenix. Mae wedi'i anelu at bobl ifanc rhwng 11-25 oed, sydd wedi troseddu neu sydd ar fin troseddu neu'n agored i niwed.

**29.** Mae ystod eang o gyngor diogelwch tân ar gael i aelwydydd ar wefan yr Awdurdod. Mae'n glir ac yn hawdd ei ganfod ar brif dudalen y safle. Mae'r Awdurdod yn hyrwyddo'r ffaith bod GDTCau ar gael yn ddi-dâl drwy osod arwyddion amlwg ar eu cerbydau diogelwch cymunedol sy'n arddangos y rhif ffôn rhadffôn.

**30.** Pan fydd digwyddiadau'n digwydd mewn cymunedau, bydd staff gweithredol yn cysylltu â chymdogion agos – disgrifir y rhain fel gweithgareddau 'Hotstrike' – i rannu gwybodaeth am risgiau tân, a hefyd i godi arwyddion yn hysbysebu'r ffaith bod cyngor am dân a GDTCau ar gael. Mae hyn yn weithgaredd pwysig o ran ymgysylltu â chymunedau a'r posibilrwydd o gyrraedd grwpiau ac unigolion sy'n anodd eu cyrraedd.

**31.** Os canfyddir unigolyn neu aelwyd risg uchel, bydd staff yn cofnodi pryd y dylid cynnal ymweliad dilynol. Mae hyn yn dibynnu ar y risg a pha mor agored i niwed yw'r aelwyd, a bydd yn ailymddangos ar y rhestr o GDTCau i'w cynnal. Fodd bynnag, mae'r trefniant hwn yn ymddangos yn oddrychol a gellid ei fonitro mewn modd mwy strwythuredig.

**32.** Mae cyfuno gwybodaeth ag asiantaethau eraill a chael atgyfeiriadau i ganfod risg uchel yn strategaeth glir yng Ngogledd Cymru. Mae'r staff yn canolbwyntio ar y cydweithio hwn fel y ffordd fwyaf defnyddiol o gael gwybodaeth am leoliad ac amgylchiadau pobl agored i niwed a phobl sy'n wynebu risg uchel o farwolaeth neu anaf o ganlyniad i dân.

### Er bod nifer yr eiddo annomestig sy'n hysbys i'r Awdurdod wedi cynyddu, maent wedi llwyddo i barhau i wirio'r un gyfran

**33.** Dywedodd swyddogion wrthym am y trefniadau ar gyfer gweithgareddau diogelwch tân i fusnesau, sy'n seiliedig ar asesiad risg, sy'n arwain at benderfyniadau ynghylch natur y gweithgarwch sydd ei angen. Roeddent yn teimlo y dylai symud tuag at waith atal a chefnogi, ar y cyd â dull seiliedig ar risg ar gyfer archwiliadau, arwain at raglen waith fwy cytbwys. Roeddent yn sylweddoli bod angen gallu dangos manteision y dull diwygiedig hwn, sydd ddim yn rhan o'r data sy'n destun adroddiadau ar lefel leol a chenedlaethol ar hyn o bryd.

**34.** Mae'r arddangosion canlynol yn dangos bod y canlynol wedi digwydd ers 2010-11:

- mae nifer y tanau annomestig wedi gostwng ers 2010-11;
- mae nifer yr eiddo busnes sy'n hysbys i'r Awdurdod wedi cynyddu 28 y cant;
- mae'r nifer a gafodd eu harchwilio wedi cynyddu o 723 i 880 (157 yn fwy o archwiliadau); ac
- mae'r amser cyfartalog a dreuliwyd ar archwiliad wedi aros oddeutu pump awr ond mae'r nifer mwy o arolygiadau'n golygu bod 520 yn fwy o oriau wedi'u treulio'n archwilio.

### Arddangosyn 4: Archwiliadau diogelwch tân i fusnesau

Er bod nifer y tanau'n lleihau, mae canran yr eiddo a archwiliwyd wedi aros yr un fath ac mae nifer yr eiddo hysbys wedi cynyddu.

| ATA Gogledd Cymru | 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm nifer yr eiddo hysbys | 12,186 | 12,853 | 14,294 | 15,550 | 17,000 |
| Canran a gafodd eu harchwilio | 6% | 3% | 6% | 6.5% | 5.1% |
| Tanau mewn eiddo annomestig | 173 | 186 | 147 | 115 | 139 |

Ffynhonnell Ystadegau Cymru Llywodraeth Cymru[6]

### Arddangosyn 5: Amser a dreuliwyd a chanlyniad archwiliadau diogelwch tân i fusnesau

Mae'r amser a dreuliwyd yn cynnal gwiriadau diogelwch tân i fusnesau wedi aros yr un fath ond mae cyfanswm niferoedd yr hysbysiadau gorfodi wedi gostwng, ac mae hysbysiadau gwahardd wedi aros ar lefel debyg ers 2011-12.

| ATA Gogledd Cymru | 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm yr oriau a dreuliwyd yn archwilio | 3,861 | 1,560 | 4,280 | 5,268 | 4,381 |
| Hysbysiadau gorfodi a gyflwynwyd | 21 | 4 | 11 | 6 | 6 |
| Hysbysiadau gwahardd a gyflwynwyd | 5 | 1 | 3 | 5 | 4 |

Ffynhonnell Ystadegau Cymru Llywodraeth Cymru[7]

**35.** Ers 2014, mae ATAau wedi gallu ffurfio partneriaethau prif awdurdod gyda busnesau, elusennau neu sefydliadau eraill sy'n gweithredu ar draws mwy nag un ardal gorfodi tân awdurdod lleol - gan ddod yn un pwynt cyswllt ar gyfer cyngor am reoleiddio diogelwch tân. Mae hwn yn gyfarwyddyd a hyrwyddir ac a weinyddir gan y Swyddfa Rheoli Gwell o fewn yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau. Nid yw'r Awdurdod eto wedi ffurfio cytundeb ffurfiol â chorff allanol o dan y fenter hon.

[6] Mae amrywiaeth o ddata am weithgareddau diogelwch tân cymunedol ar gael yma: Gweithgareddau diogelwch tân.

[7] Mae amrywiaeth o ddata am weithgareddau diogelwch tân cymunedol ar gael yma: Gweithgareddau diogelwch tân.

## Nid oes dull cyson o werthuso effeithiolrwydd gwaith diogelwch tân yng Nghymru. Mae'r trefniadau adrodd lleol presennol yn disgrifio lefel y gweithgareddau a rhywfaint o effeithiolrwydd lleol, ond dim ond darlun rhannol o berfformiad a roddir

### Mae awdurdodau tân ac achub yn gwneud gweithgareddau diogelwch tân â diben cyffredin, ac er bod y gweithgareddau'n cael eu monitro, nid oes dull cyffredin o werthuso effeithlonrwydd y ddarpariaeth

**36.** Mae'r adolygiad hwn wedi dangos bod yr Awdurdod yn cyflawni ystod eang o weithgareddau sydd wedi'u cynllunio i atal neu leihau'r risg o ddigwyddiadau yn y dyfodol. Mae'r gweithgareddau wedi'u cyfeirio tuag at eiddo penodol, neu grwpiau o bobl a allai fod yn fwy agored i niwed, neu sydd wedi troseddu neu'n edrych fel y gallent droseddu yn y maes hwn. Er ei bod yn anodd priodoli i ba raddau y mae hyn yn arwain at y gostyngiad cyffredinol yn nifer y digwyddiadau tân, mae'r gweithgareddau'n briodol ac yn cael eu cynllunio gyda'r diben o unioni materion lleol.

**37.** Fodd bynnag, mae ein hystyriaeth o'r data sydd ar gael a sut y cânt eu defnyddio wedi canfod heriau i allu pob ATA i asesu effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gwaith diogelwch tân oherwydd:

- nid ydynt wedi cytuno ar fframwaith cyffredin ar gyfer gwerthuso'r ystod eang o weithgareddau sy'n digwydd ledled Cymru; ac
- nid yw adroddiadau lleol, er eu bod yn darparu gwybodaeth am faint gweithgareddau ac mewn rhai achosion naratif sy'n egluro'r effaith ar unigolion, yn cynnwys digon o wybodaeth i lunio barn am effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.

**38.** Ceir rhai ffactorau cyffredinol cyffredin megis:

- Mae'r angen i gynnal isafswm o ddiffoddwyr tân hyfforddedig yn golygu y gallai fod gan y personél hyn gapasiti dros ben a ddefnyddir ar gyfer gweithgareddau diogelwch tân. Fodd bynnag, nid oes dull wedi'i gytuno arno i asesu'r ffordd orau o ddefnyddio personél o'r fath, ac amgylchiadau lleol fydd yn pennu'r trefniadau penodol ar gyfer criwiau sydd ar waith yn yr ATAau. Mae'r Awdurdod wedi buddsoddi mewn adnodd Diogelwch Tân Cymunedol ac i Fusnesau i gefnogi'r gwaith o gyflawni ei amcanion, gan roi pwyslais ar wneud y defnydd gorau posib o'r adnoddau sydd ar gael iddo.
- Yng nghyd-destun pwysau parhaus ar gyllidebau, ATAau sy'n pennu blaenoriaethau cydbwysedd gwariant. Mae Arddangosyn 1 yn dangos, yn 2014-15, y bu gwahaniaethau o ran lefelau gwariant a chyfran GDTCau ym mhob ATA, ond nid oes sail resymegol ar gael yn rhwydd i egluro'r gwahaniaeth.

- Nid oes adroddiadau digon clir wedi'u datblygu ynglŷn â defnyddio'r adnoddau sydd ar gael i dargedu un agwedd ar ddiogelwch tân dros un arall. Er ei bod yn glir bod neges gyffredinol gweithgareddau diogelwch tân ac atal tân yn helpu i leihau a lliniaru'r risgiau o farwolaeth ac anafiadau oherwydd tân, nid yw llwyddiant defnyddio adnoddau ariannol ar gyfer un gweithgaredd yn hytrach nag un arall wedi'i feintioli. Nid oes dadansoddiadau cost a budd wedi'u defnyddio mewn meysydd cyflenwi allweddol.

## Defnyddir llawer o wiriadau diogelwch tân cartrefi i ganfod a lliniaru risgiau diogelwch tân domestig, ond mae'r meini prawf gwerthuso'n gyfyngedig

**39.** Cydnabyddir bod gwiriadau diogelwch tân yn y cartref (GDTCau) yn chwarae rhan bwysig yn y broses o hysbysu preswylwyr eiddo domestig am ffyrdd y gallant leihau'r risg o danau.

### Arddangosyn 6: Gwiriadau diogelwch tân yn y cartref

Cwblhaodd yr Awdurdod dros 99,000 o GDTCau rhwng 2010-11 a 2014-15.

| ATA Gogledd Cymru | 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 |
|---|---|---|---|---|---|
| GDTCau wedi'u cwblhau | 36,905 | 28,471 | 22,201 | 26,703 | 27,352 |

Ffynhonnell Ystadegau Cymru Llywodraeth Cymru[8]

**40.** Mae'r Awdurdod yn gwasanaethu dros 321,000 o anheddau. Yn 2013-14, roedd Arolwg Cenedlaethol Cymru yn amcangyfrif bod tua phedwar y cant heb larwm mwg. Byddai hyn yn golygu ffigur o tua 12,842 o anheddau. Rhwng 2010-11 a 2013-14 cwblhaodd yr Awdurdod dros 87,000 o GDTCau, ynghyd â dros 54,000 yn y ddwy flynedd ganlynol. Mae'r ffigurau'n awgrymu y byddai wedi bod yn bosibl sicrhau bod larymau mwg wedi'u gosod ym mhob annedd, ond nid yw'r adroddiadau am weithgareddau'n nodi'n glir a yw hyn yn digwydd. Fodd bynnag, cydnabyddir bod angen trin data'r arolwg cenedlaethol yn ofalus gan ei fod yn seiliedig ar atebion unigolion i gwestiynau, ac nid yw'n profi a oes larwm mwg wedi'i osod ac a yw'r larwm yn gweithio ai peidio. Am y rheswm hwn, mae'r Awdurdod yn defnyddio gwybodaeth leol ei dimau mewn ffordd briodol wrth gynllunio gweithgareddau.

[8] Mae amrywiaeth o ddata am weithgareddau diogelwch tân cymunedol ar gael yma: Gweithgareddau diogelwch tân.

**41.** Mae'r wybodaeth am ganlyniadau'r rhaglen GDTC yn brin. Er enghraifft, nid ydym yn gwybod o'r adroddiadau a gyhoeddwyd:

- faint o GDTCau sy'n cael eu cynnal ar aelwydydd lle mae larymau mwg, cynllun dianc a threfniadau diogelwch tân ac atal tân digonol eisoes ar waith;
- pa mor aml y gwrthodir mynediad i aelwydydd;
- faint sy'n ymweliadau dilynol ar ôl ymweliadau GDTC blaenorol;
- cost pob GDTC unigol; ac
- oed, rhyw, anabledd, ethnigrwydd, statws priodasol neu gyfeiriadedd rhywiol yr aelwydydd lle cynhelir GDTCau.

**42.** Mae mesur llwyddiant cyfres o gamau gweithredu neu fentrau penodol ym maes diogelwch tân yn her i'r Awdurdod. Ni fyddai'n ymarferol cynnal arbrawf rheoledig gan gymharu un ardal, tref neu sir a oedd wedi cael ymyriad ag un arall nad oedd, a chymharu'r canlyniadau. Gellid gwneud rhywfaint o gymharu neu werthuso, yn enwedig ym maes gwerth am arian a thargedu gweithgareddau ychwanegol lle gellid mesur canlyniadau o bosibl.

**43.** Mae'r Awdurdod wedi cydnabod bod angen datblygu mwy ar y ffordd mae'n gwerthuso effaith ei weithgareddau diogelwch tân. Ers mis Ebrill 2015, mae'r Grŵp Llywio Ymgyrchoedd wedi gweithredu fel fforwm ar gyfer gwerthuso ymyriadau arfaethedig a'u heffeithiau dilynol.

## Nid yw gwybodaeth am gydraddoldeb ac amrywiaeth yn cael ei defnyddio'n gydlynol i lunio gweithgareddau diogelwch tân ac mae diffyg rhannu data ymysg partneriaid yn rhwystr ar lefelau gweithredol

**44.** Er ei bod yn amlwg pa risgiau sy'n wynebu pobl hŷn neu bobl ag anableddau mewn rhai amgylchiadau, nid oes gan yr Awdurdod gynlluniau cydlynol ar gyfer defnyddio gwybodaeth am amrywiaeth a chydraddoldeb i werthuso llwyddiant a chanlyniadau. Fodd bynnag, mae'n cydnabod bod angen cau bylchau mewn gwybodaeth, ac mae'n gweithio gyda phartneriaid i wella'r trefniadau. Mae llawer o ddata a gwybodaeth ar gael, ond nid yw'r wybodaeth wedi'i chydgysylltu'n dda i alluogi gwell targedu a cheir diffyg gwerthuso systematig.

**45.** Mae elfen sylweddol ar GDTCau yn ymwneud ag addysgu aelwydydd a dosbarthu gwybodaeth am weithgareddau diogelwch tân ac atal tân. Mae'r gwaith hwn yn mynd y tu hwnt i osod larymau mwg a chyfarpar atal arall. Ar gyfer rhai elfennau ar y gymuned, gallai nodweddion gwahanol fod yn fwy effeithiol – er enghraifft, mewn ardaloedd â phoblogaethau mawr o bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, gellid defnyddio staff o'r cefndir hwn, neu fwy o staff benywaidd i weithio ag aelwydydd lle mae benyw'n byw ar ei phen ei hun. Nid yw'r maes gwerthuso hwn wedi'i ddatblygu'n ddigonol yn yr Awdurdod.

**46.** Mae trefniadau strategol ar waith ar gyfer rhannu data a gwybodaeth, ac ar lefel uchel mae'n ymddangos eu bod yn effeithiol. Fodd bynnag, mae'r staff yn dweud bod rhai rhwystrau o hyd ar lefelau mwy gweithredol sy'n atal cynllunio a chyflawni effeithiol gyda phartneriaid, ac yn sôn am faterion diogelu data. Mae'r Awdurdod yn sefydliad partner yng Nghytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru ond dylid gwneud mwy i ganfod rhwystrau gweithredol i rannu data, a'u gwerthuso, i wneud yn siŵr nad ydynt yn creu cyfyngiadau.

**47.** Gellid cryfhau gwerthuso a chynllunio drwy adlewyrchu'n glir beth yw gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 mewn cynlluniau gwella ac wrth eu datblygu. Mae'r system genedlaethol o gofnodi gorfodol – y System Cofnodi Digwyddiadau – yn ffactor gyfyngol ar allu'r Awdurdod i gaffael, cofnodi a monitro gwybodaeth ddigonol am nodweddion gwarchodedig. Er enghraifft, nid yw'r Awdurdod yn cyhoeddi gwybodaeth am dueddiadau yn niferoedd y GDTCau a gwblheir yn ôl nodweddion gwarchodedig oed, rhyw, ethnigrwydd nac anabledd.

**48.** Nid yw'n glir i ba raddau mae anafiadau sy'n deillio o dân yn cael eu cofnodi ledled Cymru. Weithiau, bydd pobl yn cael mân anafiadau sy'n golygu bod Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru yn cael eu galw, a'r unigolyn yn cael triniaeth am fân losgiadau mewn adran damweiniau ac achosion brys. Mae'r digwyddiadau 'cael a chael' hyn yn ffynhonnell wybodaeth werthfawr am fregusrwydd a risg o farwolaeth mewn tân. Ar lefel leol, mae gan weithredwyr rheoli yr Awdurdod ac Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru drefniadau i rannu gwybodaeth â'i gilydd. Mae rheolwr o'r Ymddiriedolaeth yn dod ar secondiad i'r Awdurdod, ac mae'n bwriadu edrych mwy ar y trefniadau presennol gyda chynrychiolwyr o wasanaeth Heddlu Gogledd Cymru.

# Atodiad 1

## Data Awdurdod Tân ac Achub Cymru Gyfan

Ffynonellau data: Ystadegau Cymru Llywodraeth Cymru[9]

### Arddangosyn 1: Prif danau a thanau eilradd

Roedd presenoldeb mewn prif danau i lawr 29 y cant, ac roedd presenoldeb mewn tanau eilradd i lawr 52 y cant rhwng 2010-11 a 2014-15.

| Cymru | 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 |
|---|---|---|---|---|---|
| Prif danau | 6,414 | 5,687 | 4,745 | 4,790 | 4,560 |
| Tanau eilradd | 13,503 | 10,162 | 5,922 | 7,801 | 6,541 |

### Arddangosyn 2: Tanau mewn eiddo annomestig

Aeth nifer y tanau annomestig yng Nghymru i lawr 26 y cant rhwng 2010-11 a 2014-15.

| Cymru | 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 |
|---|---|---|---|---|---|
| Eiddo annomestig | 964 | 822 | 713 | 679 | 717 |

Mae **prif danau** yn cynnwys pob tân mewn adeiladau a cherbydau sydd ddim yn adfail neu mewn adeileddau awyr agored, neu unrhyw dân lle mae pobl wedi'u hanafu neu lle mae angen achub pobl, neu danau lle mae pump neu fwy o beiriannau'n rhan o'r ymateb.

Mae **tanau eilradd** yn gyffredinol yn golygu tanau awyr agored gan gynnwys tanau ar laswelltir neu mewn sbwriel oni bai bod pobl wedi'u hanafu neu fod angen achub pobl, neu fod pump neu fwy o beiriannau'n rhan o'r ymateb. Maent yn cynnwys tanau mewn adeiladau unigol sy'n adfail, hen gerbydau ffordd ac adeileddau awyr agored sy'n adfail.

**Eiddo annomestig** yw eiddo sy'n destun y Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005.

### Arddangosyn 3: Anafiadau a marwolaethau oherwydd tanau

Nid yw nifer y marwolaethau oherwydd tân wedi lleihau dros y pum mlynedd ers 2010-11, ac mae nifer yr anafiadau wedi amrywio.

| Cymru | 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 |
|---|---|---|---|---|---|
| Marwolaethau | 21 | 23 | 17 | 17 | 21 |
| Anafiadau | 607 | 592 | 541 | 626 | 543 |

Mae **marwolaethau ac anafiadau** mewn tanau'n cael eu categoreiddio. Mae'r marwolaethau'n cynnwys unrhyw farwolaeth a ddigwyddodd oherwydd tân, hyd yn oed os

[9] Mae amrywiaeth o ddata am weithgareddau diogelwch tân cymunedol ar gael yma: Gweithgareddau diogelwch tân.

digwyddodd y farwolaeth wythnosau neu fisoedd yn ddiweddarach. Fodd bynnag, mae'n bosibl, mewn rhai achosion, na chaiff marwolaeth ddiweddarach ei riportio.

### Arddangosyn 4: Canran yr anheddau â larymau mwg yn 2014-15 yn ôl awdurdod tân

Mae canran bach o anheddau heb larwm mwg; mae'r canran yn amrywio o bedwar y cant yng Ngogledd Cymru i chwech y cant yng ngweddill Cymru.

| Awdurdod tân | Un larwm mwg | Dau larwm mwg | Tri neu fwy o larymau mwg | Dim larwm mwg |
|---|---|---|---|---|
| Canolbarth a Gorllewin Cymru | 21% | 51% | 22% | 6% |
| Gogledd Cymru | 20% | 50% | 26% | 4% |
| De Cymru | 24% | 51% | 21% | 6% |

Yn 2014-15, roedd cyfarpar canfod/larymau mwg wedi seinio yn dros hanner y tanau mewn anheddau:

- yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru, roedd 44 y cant o'r larymau/canfodyddion wedi seinio ond roedd 14 y cant o'r rhai a oedd wedi'u gosod heb seinio;
- yng Ngogledd Cymru, roedd 65 y cant o'r larymau/canfodyddion wedi seinio ond roedd 23 y cant o'r rhai a oedd wedi'u gosod heb seinio; ac
- yn Ne Cymru, roedd 51 y cant o'r larymau/canfodyddion wedi seinio ond roedd 15 y cant o'r rhai a oedd wedi'u gosod heb seinio.

### Arddangosyn 5: Gwiriadau diogelwch tân yn y cartref

Rhwng 2010-11 a 2014-15, cwblhawyd bron i 350,000 o GDTCau yng Nghymru.

| Cymru | 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| GDTCau | 85,100 | 64,199 | 57,613 | 68,673 | 74,335 | 349,920 |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru